# Harbwr Diogel 3

# Calm Waters 3



## Gwybodaeth

## Information

www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Harbwr Diogel 3



**Mae harbyrau Cyngor Sir Ceredigion yn Aberaeron, Aberystwyth a Chei Newydd yn adnoddau ac atyniadau gwych o'u rhan eu hunain. Er mwyn gwneud yn siŵr bod pethau'n dawel yn yr harbyrau a'u bod yn parhau'n ddiogel, yn ddeniadol ac yn ddymunol i bawb rydym yn atgoffa defnyddwyr o rai pethau allweddol y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt, a'u bod yn eu gweithredu.**

## Cofiwch:

1. Fod yn ystyriol a pharchus bob amser tuag at holl ddefnyddwyr eraill yr harbyrau a'r cyhoedd.
2. Bod yn ystyriol a pharchus bob amser tuag at fywyd gwyllt lleol, a'i werthfawrogi.
3. Gwneud yn siŵr bod eich cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ei fod mewn cyflwr da ac yn addas at y defnydd ohono. Mae hyn yn cynnwys offer angori, cadwyni, rhaffau, angorau a dyfeisiau angori eraill. Dylech wirio'r rhain i gyd yn rheolaidd.
4. Ymdrin â'ch holl wastraff yn gyfrifol ac yn gyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys ac yn rhychwantu offer pysgota wedi'i ddefnyddio i olew gwastraff.
5. Storio'r holl gyfarpar yn ddiogel ac mewn man priodol. Mae hyn yn cynnwys cychod tendio, bwiau, potiau ac offer pysgota arall.
6. Peidio ag achosi rhwystr neu niwsans naill ai ar ochr sych nac ochr wlyb yr harbyrau. Mewn argyfwng, gallai mynediad clir fod yn hanfodol. Dylech barcio ceir yn unol â threfniadau'r lle a'r ddarpariaeth sydd yno.
7. Ymateb yn gadarnhaol i gyngor neu gyfarwyddyd a roddir gan unrhyw un o staff yr Harbyrau.
8. Codi unrhyw fater, pryder neu awgrym a all fod gennych gyda staff yr Harbyrau ar y cyfle cyntaf. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar unrhyw ddiffyg neu ddifrod y gallwch ddod yn ymwybodol ohonynt ar yr harbyrau.
9. Cysylltu â 999 mewn unrhyw fath o argyfwng.

**Rheolir yr Harbyrau yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.**

- Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion,
- Is-ddeddfau,
- Cyrsiau a Phellteroedd Morwrol,
- Tablau Llanw Lleol,
- Arfordir Treftadaeth Forol Ceredigion, Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion ac Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau,
- Anifeiliaid Morol yn Sownd ar Lan y Môr, a
- Diogelwch

Gellir cael y wybodaeth uchod yn: Yr Arfordir a Phorthladdoedd

**Dylai Defnyddwyr Harbyrau ymgyfarwyddo â'r wybodaeth hon a gwneud yn siŵr eu bod yn ymddwyn yn unol â hynny bob amser'.**

**Diweddariadau:**

### (1) Aelodau Criw Newydd.

Ganol Mai 2022, roedd yn bleser gan Gyngor Sir Ceredigion gyflogi Tom Back a Mervyn Jones yn Gynorthwywyr Harbwr Tymhorol.  Cymerodd Tom a Mervyn ill dau at y rôl â brwdfrydedd gan gynnwys bod yn bresennol yn yr harbyrau a helpu defnyddwyr yr harbyrau gyda'u anghenion o ddydd i ddydd.

Mae Tom wedi gadael i hyfforddi fel Cadét yn y Llynges Fasnach ac mae'n astudio Gwyddoniaeth Forwrol ym Mhrifysgol Plymouth ond mae Mervyn yn dal gyda ni. Hoffem ddymuno'r gorau i Tom gyda'i astudiaethau gan obeithio y caiff yrfa lwyddiannus iawn ar y môr.



*Mervyn Jones, Cynorthwyydd Harbyrau*



*Tom Back, Cynorthwyydd Harbyrau*

### (2) Cyfarfodydd y Pwyllgor Defnyddwyr Harbyrau.

Efallai eich bod yn gwybod y cynhelir cyfarfodydd Pwyllgorau'r Defnyddwyr Harbyrau nesaf ar 20 Hydref 2022 ar yr amserau a ganlyn; fe'u cynhelir yn rhithiol ar Microsoft Teams.

17:30 Aberaeron.

18:15 Cei Newydd.

19:00 Aberystwyth.

Mae'r Pwyllgorau'n rhoi cyfle i drafod materion yn ymwneud â Harbyrau mewn cyfarfodydd, ond mae nifer o ffyrdd eraill y gall rhanddeiliaid gysylltu â'r gwasanaeth harbyrau ynghylch materion o ddydd i ddydd, gan gynnwys cwrdd wyneb yn wyneb yn yr harbyrau neu drwy Clic – clic@ceredigion.gov.uk / 01545 570881.

**(3) Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladdoedd.**


Mae Tîm y Gwasanaeth Harbyrau yn parhau i weithio gydag Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ar ddatblygu a gweithredu Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladdoedd.

Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Harbyrau yn gweithio ar roi'r seilwaith angenrheidiol yn ei le ym mhob un o'r Harbyrau er mwyn cynnal a storio'r cyfleusterau newydd.

**(4) Ardal Ddynodedig ar gyfer Storio Potiau ac Offer Pysgota Dros Dro – Cei Newydd.**

Mae ardal uchel y Pier (gweler y darlun isod) wedi parhau i fod yn broblem, a defnyddwyr yr harbwr yn gadael eitemau yno sy'n arwain at lanast cywilyddus. Er mwyn goresgyn y broblem penderfynwyd bod ardal uchel y Pier (gweler y ffotograff) yn cael ei neilltuo ar hyn o bryd yn ardal storio **dros dro** i bysgotwyr masnachol storio potiau ac offer pysgota arall dim ond yn y cyfnod interim o lwytho, gollwng a glanhau ar ôl hynny.

Bydd y tîm Harbyrau hefyd yn ystyried gosod arwyddion i nodi pwrpas yr ardal. Bydd unrhyw eitem a ganfyddir y tu allan i'r ardal ddynodedig uchod yn cael ei symud oddi yno heb rybudd.



*Ardal uchel y Pier yn Harbwr Cei Newydd.*

### (5) Stand Byrddau Bordhwylio/Rac Ceufadau.

Gwnaed gwaith cynnal a chadw hirddisgwyliedig ar y Rac Byrddau Bordhwylio/Ceufadau yn Harbwr Cei Newydd ar ddechrau'r tymor, tociwyd y mieri a chafodd y rhifau eu hadnewyddu. Anfonwyd ffurflen gais at bob un sy'n defnyddio'r rac ynghyd â rhif rac. Caiff defnyddwyr dynodedig eu hatgoffa i ddilyn y rheolau syml isod bob amser.

- Rhaid rhoi rhif clir ar y naill ben a'r llall o'r ceufadau/byrddau bordhwylio (blaen a starn, yr asgell a'r cefn) yn unol â'r rhif rac a neilltuwyd ar eu cyfer.
- Rhaid storio pob bwrdd bordfyrddio/ceufad yn y lle(oedd) penodedig ar y rac.
- Dim ond un bwrdd bordfyrddio/ceufad all gael ei neilltuo i un lle.

Os oes unrhyw broblem gyda'r rac ceudfadau, cysylltwch â ni ar y ffôn neu dros e-bost drwy Clic (gweler yr adran adborth isod yn y ddogfen hon i gael manylion cyswllt).

### (6) Polisi Rheoli Harbyrau.

Mae'r Rheolwr Harbyrau wedi gwneud cynnydd o ran adolygu a diweddaru Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion. Bydd y polisi newydd yn mynd i'r afael â bylchau rhwng arferion dydd i dydd a'r hyn sy'n ysgrifenedig ym mhob un o'r harbyrau a bydd yn ymdrin â phob agwedd o'r harbyrau a'u cyfleusterau fel y gellir parhau i ddarparu gwasanaeth teg wedi'i ddiffinio'n dda yn y dyfodol.

A oes gennych awgrym neu adborth ynghylch yr hyn yr hoffech weld yn cael ei weithredu/newid? Byddem yn gwerthfawrogi eich adborth a'ch awgrymiadau.

Gweler yr adran adborth yn y ddogfen hon i gael manylion cyswllt.

### (7) Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru i gael trwydded forol i godi'r amddiffynfeydd môr newydd yn Aberaeron. Gobeithir y bydd diweddariad pellach ar gael yn y flwyddyn newydd.

**(8) Bendigedig – Her Hwylio Fyd-eang.**

Mae Tîm y Gwasanaeth Harbyrau yn falch iawn o fod wedi cymryd rhan yn nhrefniadau angori a lansio Bendigedig yn ystod ei lansiad cychwynnol yn Harbwr Aberaeron. Ers ei lansiad cychwynnol yn Aberaeron ym mis Mai, mae Dafydd Hughes (y capten) wedi crynhoi 3000 o filltiroedd ar Bendigedig ar dreialon ar y môr wrth baratoi ar gyfer yr Her Fyd-eang ar ei ben ei hun. Bydd Dafydd yn cystadlu yn yr Her Fyd-eang ar ei ben ei hun, sydd i fod i ddechrau yn A Coruña, Sbaen ym mis Medi 2023. Bydd yr her yn cynnwys mordaith 26,000nm o gwmpas y tri phenrhyn mawr, sef Penrhyn Gobaith Da, Penrhyn Leeuwin a'r Horn cyn dychwelyd i A Coruña. Credir y bydd y digwyddiad yn para rhwng 120 a thros 200 o ddiwrnodau. Rydym i gyd yn falch iawn o Dafydd a hoffem ddymuno pob lwc iddo, gwyntoedd teg a hwyl dda ar gyfer yr her sydd i ddod.



*Dafydd Hughes a Bendigedig yn Harbwr Aberaeron*

**(9) Carthu.**

Yn dilyn gwaith carthu llwyddiannus ym mhob un o'r harbyrau eleni (gweler y ffotograffau isod), mae'r carthu ar gyfer Harbyrau Aberaeron a Chei Newydd yn cael ei drefnu yn awr ar gyfer mis Mawrth 2023. Cyflwynir Hysbysiad Lleol i Forwyr a rhanddeiliaid priodol a bydd yn cael ei arddangos ym mhob un o Swyddfeydd yr Harbyrau.

Atgoffir defnyddwyr harbyrau i gymryd cyfrifoldeb (yn ôl yr arfer) dros eu hoffer/dyfeisiau angori pan fydd y gwaith carthu yn mynd rhagddo.





*Carthu Harbwr Aberaeron, Mawrth 2022.*

**(10) Llithrfeydd.**

Cafodd y llithrfeydd ym mhob harbwr eu golchi â pheiriannau pwerus a'u brwshio'n rheolaidd trwy gydol y tymor.   Bydd tîm y gwasanaeth harbyrau yn ystyried gwneud yr un peth yn ystod tymhorau i ddod.

Atgoffir defnyddwyr harbyrau i fod yn ofalus a thalu sylw priodol pan fyddant yn yr harbyrau, wrth ddefnyddio'r llithrfeydd a cheiau yn ogystal â phan fyddant ar lan y dŵr oherwydd y peryglon cyffredinol sydd ynghlwm wrth leoliadau o'r fath.





## (11) Iechyd a Diogelwch - Cyfrifoldeb Pawb.

Mae harbyrau yn fannau gwaith ac amgylcheddau a ddefnyddir ar y cyd. Mae'r Gwasanaeth Harbyrau bob amser yn ceisio cefnogi a hwyluso defnydd diogel ohonynt cyn belled ag sy'n rhesymol ac yn ymarferol bosibl. Mae Iechyd a Diogelwch yn gyfrifoldeb ar bawb ac o'r herwydd rydym yn diolch i bob rhanddeiliad am feithrin dulliau gweithredu ac agweddau rhagweithiol a chadarnhaol tuag at gynnal yr harbyrau fel mannau pleserus a diogel i'w defnyddio ac ymweld â nhw.

## (12) Glanio.

Yn anffodus, gwelodd 2022 ymadawiad Roy Fenner a Nigel Wells o'r Gwasanaeth Harbyrau. Rhyngddynt, rhoddodd Nigel a Roy nifer o flynyddoedd o wasanaeth ac roeddent ill dau yn wynebau adnabyddus yn ein harbyrau. Er bod y ddau wedi ymddeol o'r gwasanaeth erbyn hyn, fel morwyr brwd a chychod yn hobi iddynt, ni allant gadw draw o'r harbyrau. Hoffem ddymuno'r gorau i'r ddau ohonynt yn eu hymddeoliad.



*Nigel ar fwrdd y llong fasnachol M.V. Dragonera yng Ngwlff Mecsico.*



*Roy ym Mhont y Tŵr, Llundain.*

**Adborth.**


Rydym bob amser yn croesawu ac annog adborth adeiladol gan randdeiliaid. Cysylltwch â ni dros **e-bost, drwy clic@ceredigion.gov.uk neu drwy ffonio 01545 570881.**

Gall y dogfennau hyn gael eu diweddaru ac felly dylech fwrw golwg arnynt yn rheolaidd.

**Gyda diolch, Y Tîm Harbyrau**

*Owen Morgan MNI, Rheolwr Harbyrau*

*Mervyn Jones, Cynorthwyydd Harbyrau Tymhorol*



*Owen Morgan*



*Mervyn Jones*

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion

# Harbwr Diogel 3

# Calm Waters 3



www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council